# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 05.11.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Louise Hughes a Evie Morgan Jones

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu), Alun Evans (Swyddog Iechyd Amgylchedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CROSS FOXES, BRITHDIR, DOLGELLAU

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:</u>**

**Ar ran Cross Foxes, Brithdir, Dolgellau:** Mrs Nicol Gwynne (ymgeisydd) a Mrs R. Cohen (cynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Graeme Dickson

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Cross Foxes, Brithdir, Dolgellau am drwydded eiddo i ganiatau dramau, ffilm, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio a dawnsio rhwng 12.00pm a 12.00am; darparu bwyd poeth rhwng 23.00 a 02.00 a chyflenwi alcohol rhwng 10.00 a 02.00, gyda phob gweithgaredd am awr ychwanegol ar benwythnos Gŵyl Banc (Gwener – Llun), noson Sant Ffolant a Noswyl y Nadolig, gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd am hanner awr ar ôl diwedd y gweithgaredd.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu na Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (gydag amodau), wrthwynebiad i'r cais. Nid oedd gan Adran Cynllunio'r Parc Cenedlaethol unrhyw sylwadau i'w cynnig ar y cais. 'Roedd yr Adran Iechyd Amgylchedd yn gwrthwynebu'r cais yn rhannol a derbyniwyd llythyr gan un o'r trigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd cynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd iddi fod mewn cysylltiad gyda'r mwyafrif o'r rhai sy'n gwrthwynebu'r cais pryd y cytunwyd i ychwanegu rhai amodau i'r cais er cesio goresgyn rhai o'r problemau oedd gan y gwrthwynebwyr e.e. 'roedd yr Adran Iechyd Amgylchedd wedi gofyn am newid manylion parthed sŵn, peidio caniatau ysmygu tu allan i'r drws a oedd ar un adeg yn ddrws ffrynt i'r eiddo a gosod arwyddion yn gofyn i bobl gau ffenestri os byddai sŵn yn dod o'r eiddo ac i gymryd pob cam posibl i atal sŵn o'r adeilad a fyddai'n debygol o amharu ar y gwrthwynebydd. Mewn perthynas â'r babell fawr (marquee),

hysbysodd, gan nad oes digon o le yn yr eiddo ei hun i gymryd partion mawr e.e. gwledd priodas, cynadleddau a.y. bwriedir cynnal y gweithgareddau hyn yn y babell. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd angen y babell fawr yn ystod tymor y gaeaf ond efallai y bydd angen ei ddefnyddio yn ystod yr haf i gynnal rhwng 12 a 14 o weithgareddau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed diogelwch y cyhoedd, hysbysodd cynrychiolydd yr ymgeisydd y byddai'n fodlon gosod arwyddion yn cynghori'r cwsmeriaid i beidio ymlwybro tu allan i ffiniau'r eiddo. Cadarnhaodd y byddai'r adloniant fyw yn y babell fawr yn gorffen am 22.00. Eglurodd bod angen ychydig o hyblygrwydd i redeg y busnes, ac er yr hyn y gofynnwyd amdano yn y cais o safbwynt oriau, ni ragwelai y byddai'r eiddo ar agor tan 02.00 bob diwrnod o'r wythnos. Cytunodd i amod lle byddai'n rhaid rhoddi rhybudd i'r heddlu o unrhyw ddigwyddiad yn y babell fawr lle y byddai angen tocynnau i gael mynediad. Nododd y disgwylir y byddai'r eiddo'n agored i'r cyhoedd ar 17 Tachwedd 2010. Nododd yr aelodau eu bod yn cymryd yn ganiataol y byddai'r ymgeiswyr yn sicrhau bod pob caniatâd sy'n angenrheidiol dan ddeddfwriaethau eraill mewn lle hefyd erbyn hynny.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac hysbysodd y Swyddog Iechyd Amgylchedd nad oedd ganddo wrthwynebiad fel y cyfryw i'r cais, ond yr unig wrthwynebiad yw'r bwriad i gynnal adloniant o fewn y babell fawr, tu allan i'r eiddo. Deellir i'r ymgeisydd gytuno i'r amod a argymhellir parthed cynnal adloniant tu fewn i'r eiddo ond os rhoddir caniatâd i gynnal adloniant mewn pabell fawr tu allan i'r eiddo, yna byddai hynny'n cael ardrawiad sŵn annerbyniol ar eiddo preswyl cyfagos. Nododd bod y lefel sŵn a gyfrifwyd yn mynd yn erbyn lefelau a grybwyllir mewn nifer o ddogfennau o gyngor gan gynnwys Cyfundrefn Iechyd y Byd. 'Roedd yr ymgeiswyr wedi datgan eu bodlonrwydd i osod peiriant a fyddai'n cyfyngu sŵn yn y babell fawr. Nododd y byddai'n bosibl yn ymarferol i ddefnyddio peiriant o'r math hwn mewn adeilad oherwydd y byddai'n bosibl i reoli sŵn yn eithaf rhwydd o fewn adeilad, ond y broblem mewn pabell fawr yw ei bod tu allan ac y byddai synau eraill yn debygol o ddod i mewn iddi e.e. cerbydau a loriau.

Manteisiodd y gwrthwynebydd oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu sylwadau ef a'i wraig a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Bod ei eiddo yr un agosaf at yr eiddo dan sylw.
- Y byddai'r oriau y gofynnir amdanynt yn debygol o amharu ar ei fwynderau ac ansawdd ei fywyd.
- Y byddai sŵn adloniant yn hwyr yn y nos o'r babell fawr yn annioddefol.
- Y byddai cael tafarn ar agor tan yn hwyr yn arwain at y math o sŵn sy'n gysylltiedig ag unrhyw dafarn ac na fyddai modd goresgyn y problemau hyn.
- Er ei drafodaethau gyda'r ymgeiswyr, ac er yr hyn 'roedd wedi ei glywed yn y gwrandawiad, 'roedd ei wrthwynebiad, fel yr eglurwyd yn ei lythyr, yn aros.

Gadawodd yr ymgeisydd a'i chynrychiolydd, y Rheolwr Trwyddedu, y Swyddog Iechyd Amgylchedd a'r gwrthwynebydd y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef -

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – 'roedd yr heddlu wedi cadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gan unrhyw un arall 'chwaith ynglyn â phroblemau dan y pennawd hwn.
- Diogelwch y Cyhoedd – 'roedd yr aelodau'n bryderus o ystyried lleoliad yr eiddo ar gyffordd yn enwedig pan fyddai cwsmeriaid yn y babell fawr. Nodwyd parodrwydd yr ymgeisydd i gymryd camau i atgoffa cwsmeriaid o'r peryglon ac y byddai wal yn cael ei chodi.
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – dyma oedd y brif ystyriaeth wrth ymdrin â'r cais hwn. Ystyriodd yr is-bwyllgor wrthwynebiadau'r cymydog a'r ffaith ei fod yn byw yn agos iawn at yr eiddo. 'Roedd yr is-bwyllgor o'r farn y byddai caniatau adloniant tu allan i'r adeilad (h.y. yn y babell fawr) hyd at 22.00 yn rhesymol. Serch hynny, 'roeddynt am i bob adloniant orffen yr adeg hynny er tegwch i'r cymdogion oedd wedi gwrthwynebu. 'Roedd

yr amodau a gynigiwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylchedd yn ymdrin â'r sefyllfa o safbwynt rheoli sŵn oedd yn dod o'r adeilad ei hun.

- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd tystiolaeth o unrhyw bryderon ynglyn â'r amcan hwn.

'

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Cross Foxes, Brithdir, Dolgellau fel a ganlyn –**
**1. (A) Dramau; (B) Ffilmiau; (C) Digwyddiadau chwaraeon dan do; (E) Cerddoriaeth Fyw; (F) Cerddoriaeth wedi ei recordio; (G) Perfformiadau dawns; (H) Unrhyw weithgaredd sy'n debyg i'r hyn sy'n disgyn o fewn paragraffau E, F neu G; (I) Cyfleusterau ar gyfer chwarae cerddoriaeth; (J) Cyfleusterau ar gyfer dawnsio; (K) Cyfleusterau ar gyfer adloniant yn debyg i ddisgrifiad yr hyn sy'n disgyn o fewn paragraffau I neu J, fel a ganlyn –**
**O fewn yr adeilad –**

- **Dydd Sul i Ddydd Mercher o 12.00 hyd at 23.30**
- **Dydd Iau i Ddydd Sadwrn o 12.00 hyd at 00.00**

**Yn y babell fawr tu allan i'r adeilad –**

- **Dydd Sul i Ddydd Sadwrn o 12.00 hyd at 22.00**

**2. Lluniaeth hwyr (paragraph L)**
**O fewn yr adeilad –**

- **Dydd Sul i Ddydd Mercher 23.00 hyd at 00.00**
- **Dydd Iau i Ddydd Sadwrn 23.00 hyd at 02.00**

**3. Cyflenwi alcohol (paragraff M) ar ac oddi ar yr eiddo**
**O fewn yr adeilad –**

- **Dydd Sul i Ddydd Mercher 10.00 hyd at 00.00**
- **Dydd Iau i Ddydd Sadwrn 10.00 hyd at 02.00**

**Yn y babell fawr tu allan i'r adeilad –**

- **Dydd Sul i Ddydd Sadwrn o 10.00 hyd at 23.00**

**4. Eiddo ar agor i'r cyhoedd (paragraff O)**

- **Dydd Sul i Ddydd Mercher 07.00 hyd at 00.30**
- **Dydd Iau i Ddydd Sadwrn 07.00 hyd at 02.30**

**Gwestai sy'n aros yn yr eiddo i gael mynediad i'r eiddo drwy'r amser**

**5. Amseroedd ansafonol**
**Ar gyfer yr holl weithgareddau trwyddedig yn 1-4 uchod –**
**Penwythnos Gŵyl Banc (Gwener i Llun), noson Sant Ffolant a Noswyl Nadolig, awr ychwanegol a 11.00 noswyl Flwyddyn Newydd tan 00.00 diwrnod Flwyddyn Newydd, yn ddarostyngedig i bob adloniant trwyddedig ddod i ben yn y babell fawr am 22.00**

**6. Ni chaniateir mynediad ar ôl 23.00 (heblaw am westai)**

**7. Gosod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylchedd –**

- **Ni chaniateir cynnydd yn y lefel $L_{Aeq\ 5\ munud}$ na'r lefel $L_{Zeq\ 5\ munud}$ yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125HZ oddi fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod yma mae $L_{Aeq}$ wedi ei ddiffinio yn BS4142:1997.**
- **Annogir cwsmeriaid i ysmygu wrth gefn yr adeilad.**

**8. Y camau a ddisgrifir ym mharagraff P o'r cais (fel y'u diwygiwyd gan y llythyr gan**

**Rebecca Cohen a oedd yn rhaglen yr is-bwyllgor), i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded.**

**9. Rhoddi rhybudd ymlaen llaw i'r heddlu o unrhyw ddigwyddiad a gynhelir yn y babell fawr lle y bydd angen tocynnau i gael mynediad.**

**10. Codi arwyddion yn rhybuddio cwsmeriaid i gadw o fewn ffiniau'r eiddo.**

**11. Y drwydded i fod yn weithredol o 17 Tachwedd 2010 ymlaen.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.00pm